# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13710

## 188

### Datganiad gan y Llywydd

Am 13.30, cyhoeddodd y Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75 y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ar 5 Chwefror 2024. Gwnaeth y Llywydd ddatganiad hefyd ar farwolaeth diweddar chwaraewr rygbi Cymru a'r Llewod Prydeinig, Barry John a'r cyhoeddiad iechyd gan Ei Fawrhydi.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.35

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Adolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o ddiwylliant a gwerthoedd - y camau nesaf

Dechreuodd yr eitem am 14.51

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymwysterau galwedigaethol

Dechreuodd yr eitem am 15.26

## 5 Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 - Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 6 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2024-2025

Dechreuodd yr eitem am 15.52

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8473** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 19 Rhagfyr 2023.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 yn methu â chyflawni blaenoriaethau pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 12 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM8473** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 19 Rhagfyr 2023.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 12 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Dadl: Y Diwydiant Dur yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 18.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NNDM8480** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod dyfodol addawol i waith creu dur mewn ffwrneisiau chwyth yng Nghymru fel rhan o bontio teg sy'n cefnogi economi Gymreig gryfach ac sydd hefyd yn diogelu ased sy'n perthyn i'r DU.

2. Yn cefnogi’r achos dros drafodaethau pellach a fydd yn galluogi proses bontio hirach i ddiogelu swyddi er mwyn creu dyfodol uchelgeisiol a gwyrddach ar draws cyfleusterau Tata yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r £500 miliwn gan Lywodraeth y DU i sicrhau dyfodol y gwaith cynhyrchu dur ym Mhort Talbot.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r gronfa bontio gwerth £100 miliwn gydag £80 miliwn gan Lywodraeth y DU ac £20 miliwn gan Tata Steel Ltd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu cyllid ar unwaith i gefnogi gweithwyr dur.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NNDM8480** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod dyfodol addawol i waith creu dur mewn ffwrneisiau chwyth yng Nghymru fel rhan o bontio teg sy'n cefnogi economi Gymreig gryfach ac sydd hefyd yn diogelu ased sy'n perthyn i'r DU.

2. Yn cefnogi'r achos dros drafodaethau pellach a fydd yn galluogi proses bontio hirach i ddiogelu swyddi er mwyn creu dyfodol uchelgeisiol a gwyrddach ar draws cyfleusterau Tata yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 18.23

**NNDM8481** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8480 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 8 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 19.03

**NDM8475** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Gosodwyd y **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)** a'r **Memorandwm Esboniadol** gerbron y Senedd ar 2 Hydref 2023;

**Gosodwyd** adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) gerbron y Senedd ar 26 Ionawr 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Y penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 19.31

**NDM8474** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 20.26

Daeth y cyfarfod i ben am 20.31

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024**